Fforwm Beirdd yr Uchelwyr

18 Mai 2019

Braf oedd croesawu criw da i'r Ganolfan unwaith eto eleni ar gyfer fforwm blynyddol Beirdd yr Uchelwyr – a hithau'n bum mlynedd ar hugain ers y fforwm cyntaf yn 1994.

'Catrin o Ferain a'i dyn PR' oedd teitl y ddarlith gyntaf, gan Helen Williams-Ellis (sydd yn absennol o'r llun). Clywsom sut y gwnaeth ail ŵr Catrin, Rhisiart Clwch, marsiandïwr llewyrchus a thra chefnog, ymdrech fawr i hyrwyddo ei hun yn weledol drwy gomisiynu portreadau ohono ef a'i wraig gan arlunwyr blaenllaw eu dydd. Ond pan fu farw Clwch, yn 1570, at y bardd Wiliam Cynwal y trodd Catrin ei hun am wasanaeth PR cyffelyb. Mae'n amlwg iddi ofyn i Gynwal olrhain ei hachau a chasglu ynghyd yr holl farddoniaeth a ganwyd iddi hi, ei theulu a'i chyndeidiau. Rydym yn hynod ffodus fod y llyfr a greodd Cynwal wedi goroesi, sef llawysgrif Rhydychen, Coleg Crist 184.

' "Y corff mau": cipolwg ar y corff yng ngwaith Dafydd ap Gwilym' oedd dan sylw gan Dr Bleddyn Owen Huws, uwch-ddarlithydd yn Adran y Gymraeg Prifysgol Aberystwyth. Tynnodd sylw at y modd y mae Dafydd yn cyfeirio'n aml at ei gorff ei hun yn ei ganu, a sut y teimlai'r bardd densiwn weithiau rhyngddo ef ei hun a'i gorff: y corff, wrth gwrs, yn rhan annatod ohono'i hun ac eto ar wahân, ac weithiau fel petai'n gweithio yn ei erbyn.

Gwaith mawr Daniel Huws, *A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes c.800–c.1800*, oedd pwnc Gruffudd Antur yn y sesiwn olaf cyn cinio, a braf oedd croesawu Daniel yntau i ddweud gair am y gwaith pwysig hwn a fydd yn cael ei gyhoeddi yn 2020. Esboniodd Gruffudd ei fod wedi gwneud sawl darganfyddiad pwysig wrth weithio fel ymchwilydd ar y Repertory eleni, gan gynnwys adnabod llaw lai ffurfiol y bardd o'r bymthegfed ganrif, Lewys Glyn Cothi. O ganlyniad, gwyddom bellach fod o ddeutu 200 o gerddi Lewys (tua 90% o'i waith) wedi eu cadw yn ei law ef ei hun, gan gynnwys ei farwnad enwog i'w fab Siôn.

Amwysedd ym marddoniaeth Dafydd ap Gwilym oedd pwnc yr Athro Dafydd Johnston – a chawsom ein tywys ganddo drwy nifer o ddyfyniadau o'r farddoniaeth, gan agor ein llygaid i'r haenau gwahanol o ystyr sy'n aml i'w canfod yn y cerddi. Arweiniodd hyn at drafodaeth ddifyr iawn ynglŷn â natur cynulleidfa'r bardd, a sut y byddai datgeiniad yn llwyddo i gynorthwyo gwrandawyr i ymglywed â'r haenau ystyr amrywiol hyn wrth ddatgan.

I gloi'r dydd cawsom bapur difyr iawn gan Dr Euryn Rhys Roberts o Brifysgol Bangor yn trafod y rhestrau o enwau cymydau a chantrefi Cymru a geir mewn nifer helaeth o lawysgrifau, gan ofyn cwestiynau pwysig ynglŷn â'u bodolaeth a pham yr oedd ysgrifwyr yn eu copïo. Tynnodd sylw at restr gynnar iawn o'r fath, mewn Lladin, ond a anwybyddwyd gan haneswyr cynnar yr ugeinfed ganrif, sef testun a gopïwyd i Lyfr Coch y Siecr (TNA PRO E164/2) o ddeutu 1225.

Ann Parry Owen
apo@cymru.ac.uk